COMISIYNYDD
SAFONAU
STANDARDS
COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Ebrill 2023 - Mawrth 2024



Mae'r Comisiynydd Safonau y Senedd yn berson annibynnol a benodir gan Senedd Cymru i ddiogelu safonau, cynnal enw da'r sefydliad a mynd i'r afael â chwynion.



---

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiynydd Safonau'r Senedd:
**www.comisiynyddsafonaucymru.org.**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopi caled gan:

**Comisiynydd Safonau'r Senedd**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: **Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru**

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Ebrill 2023 - Mawrth 2024


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 6
2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd ........ 7
3. Cwynion ........ 8
4. Gwaith arall ........ 15
5. Gwariant ........ 16
6. Y flwyddyn i ddod ........ 18
7. Diolchiadau ........ 19

# 1. Cyflwyniad

**1.** Dyma fy mhedwerydd adroddiad blynyddol fel Comisiynydd Safonau’r Senedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y cyflawnais swyddogaethau'r swydd honno yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**2.** Ar ôl nodi'r darpariaethau statudol perthnasol, mae'n rhoi gwybodaeth am nifer y cwynion a phwnc y cwynion a ddaeth i law a’r modd y cawsant eu prosesu. Rhoddir gwybodaeth hefyd am waith arall a wnaed yn 2023-24, gwariant swyddfa'r Comisiynydd a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2024-25.

# 2. Swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd

**3.** Nid oedd dim newidiadau i swyddogaethau a dyletswyddau'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn adrodd. Crëwyd swydd Comisiynydd Safonau y Senedd gan adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ('y Mesur').[1] Mae adran 5 y Mesur yn darparu ar gyfer annibyniaeth y Comisiynydd o gyfarwyddyd neu reolaeth y Senedd.

**4.** Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn adrannau 6 a 7 o'r Mesur a gellir eu crynhoi fel a ganlyn –

- Derbyn unrhyw gŵyn bod Aelod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad y Cod Ymddygiad[2] (y Cod') neu ddarpariaeth berthnasol arall ac ymchwilio i'r rhai sy'n dderbyniadwy a rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") ar y rhai hynny;[3]

- Cynghori Aelodau o'r Senedd ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion;

- Rhoi cyngor i'r Senedd ar unrhyw fater o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau, y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd.

**5.** Mae adran 19 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi cael eu harfer yn ystod y flwyddyn honno.

---

[1] legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/1/contents/welsh;
legislation.gov.uk/mwa/2009/4/contents/enacted/welsh;
Cafodd teitl y swydd ei newid o Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan ddaeth adran 7 y Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) i rym ar 6 Mai 2020
[2] cr-ld14238-w.pdf (senedd.cymru)
[3] Fel y'i diffinnir yn adran 6 (3) o'r Mesur.

# 3. Cwynion

## Cyflwyniad

**6.** Yn ystod y flwyddyn, cafodd y rhan fwyaf o fy amser o bell ffordd, ei dreulio'n ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth amdanynt yn y paragraffau a ganlyn.

## Cwynion a ddygwyd ymlaen o 2022-23

**7.** Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, nid oedd dim cwynion yn aros am benderfyniad ar dderbyniadwyedd. Roedd ymchwiliadau tair cwyn dderbyniadwy yn parhau ar ddechrau'r flwyddyn. Cyflwynwyd fy adroddiad o un o'r rhain i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2023.[4] Cyflwynwyd adroddiad o fy ymchwiliad i'r gŵyn yn erbyn Rhys ab Owen AS ym mis Mai 2023. Daeth fy ymchwiliad i'r drydedd gŵyn barhaus i ben ym mis Mehefin 2023 yn unol â pharagraff 5.1(b) o'r **Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")**.[5]

## Cwynion newydd

**8.** Yn ystod y flwyddyn, daeth 190 o gwynion i law. Ymdriniwyd â'r holl gwynion hyn yn unol â'r Weithdrefn.

**9.** Dangosir y ffynonellau, y pwnc a'r rhesymau dros annerbyniadwyedd y cwynion hyn yn y Tablau canlynol.

[4] **Seithfed Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**

[5] Mae paragraff 5.1(b) yn caniatau i'r Comisiynydd ddwyn ystyriaeth o gŵyn i ben pan mae'n ailadrodd rhannau sylweddol o honiad y mae'r Comisiynydd eisoes wedi'i ystyried ac na ddarparwyd tystiolaeth ychwanegol sylweddol;

*Tabl 1: Cwynion a ddaeth i law, ffynhonnell a derbyniadwyedd*

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Daeth i law** | 106 | 216 | 44 | 71 | 190 |
| **% gan y Cyhoedd** | 76.4 | 94 | 91 | 58 | 89 |
| **% gan Aelod yn erbyn Aelod** | 13.2 | 4.5 | 0 | 0 | 0.5 |
| **% gan Aelod yn ei erbyn ei hun** | 0 | 0.5 | 0 | 7 | 1.5 |
| **% gan Glerc y Senedd** | 10.4 | 1 | 9 | 35 | 9 |
| **% annerbyniadwy** | 85.9 | 41 | 80 | 49 | 84 |
| **% derbyniadwyedd heb ei benderfynu erbyn diwedd y flwyddyn** | 6.6 | 9 | 5 | 0 | 1 |

*Tabl 2: Cwynion yn ôl pwnc*

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol** | 58 | 60 | 6 | 8 | 53 |
| **Camddefnyddio adnoddau** | 15 | 25 | 4 | 5 | 3 |
| **Safon gwasanaeth** | 13 | 7 | 16 | 5 | 17 |
| **Methu â chofrestru / datgan / diweddaru buddiant** | 9 | 95 | 7 | 27 | 24 |
| **Y tu allan i gylch gwaith (ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu ymddygiad Gweinidogol)** | 7 | 12 | 3 | 20 | 29 |

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddygiad arall**[6] | 4 | 17 | 8 | 6 | 64 |
| **CYFANSWM** | 106 | 216 | 44 | 71 | 190 |

***Tabl 3. Rhesymau dros annerbyniadwyedd***[7]

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Ddim yn ysgrifenedig (Paragraff 4.2(a) y Weithdrefn) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2** | Ddim yn enwi'r achwynydd (Paragraff 4.2(b) y Weithdrefn) | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **3** | Ddim yn ymwneud ag ymddygiad Aelod a enwir (Paragraff 4.2(c) y Weithdrefn) | 5 | 2 | 2 | 0 | 9 |
| **4** | Ddim yn datgan gweithred neu ddiffyg y cwynir amdano (Paragraff 4.2(d) y Weithdrefn) | 82 | 86 | 33 | 1 | 9 |
| **5** | Tystiolaeth ategol annigonol (Paragraff 4.2(e)(i) y Weithdrefn)[8] | - | - | - | 3 | 40 |
| **6** | Ymddygiad, os profir, nad yw'n torri darpariaeth berthnasol (Paragraff 4.2(e)(ii) y Weithdrefn) | | | | | |
| | Ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor (Paragraff 3 y Cod)[9] | - | - | - | 13 | 17 |
| | Ymddygiad Gweinidogol (Paragraff 7(ii) y Cod)[10] | - | - | - | 7 | 12 |

[6] Roedd y rhain yn cynnwys 26 o gwynion gan aelod o'r cyhoedd am ymddygiad dau Aelod mewn perthynas â chwyn. Roedd y pynciau eraill y cwynwyd amdanynt yn cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru, sylwadau gan Aelodau ar gyfryngau darlledu a'r ad-daliad i Aelodau o danysgrifiadau i sefydliadau.
[7] Cyflwynwyd ystadegau manylach ar y rhesymau dros annerbyniadwyedd ar gyfer 2022-23. Ar gyfer blynyddoedd blaenorol roedd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu dosbarthu fel rhai annerbyniadwy o dan y disgrifydd "Dim digon o sylwedd i gyfiawnhau ymchwiliad pellach." Dangosir y ffigurau yn erbyn Rheswm 4
[8] Pan fydd Achwynwyr yn methu darparu digon o dystiolaeth neu wybodaeth ar y dechrau i gefnogi cwyn a allai fod yn dderbyniadwy, caniateir iddynt o leiaf 14 diwrnod i'w darparu.
[9] Mae paragraff 3 o'r Cod yn darparu mai'r Llywydd a chadeiryddion Pwyllgorau sydd, fel arfer, yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod Cyfarfod Llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau, drwy droi at Reolau Sefydlog y Senedd. Dim ond os caiff cwyn am ymddygiad o'r fath ei chyfeirio at y Comisiynydd gan y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor y caiff y Comisiynydd ymchwilio iddi.
[10] Mae Adran 8 y Mesur a pharagraff 7(ii) o'r Cod yn ei gwneud yn glir nad oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion am gamymddwyn honedig gan Aelod wrth weithredu'n llwyr yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog. Cafodd yr achwynwyr a honnodd gamymddwyn gweinidogol eu cyfeirio at swyddfa'r Prif Weinidog.

| Rhif y rheswm | Disgrifydd | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safon gwasanaeth (Paragraff 7(iii) y Cod)[11] | - | - | - | 4 | 17 |
| | Arall | - | - | - | 7 | 54 |
| **7** | Ddim o fewn y cyfnod a ganiateir (Paragraff 4.2(g) y Weithdrefn) | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |

**10.** O'r 29 o gwynion derbyniadwy, roedd 18 yn atgyfeiriadau gan Glerc y Senedd. Roedd pob un yn ymwneud â mân fethiannau gan Aelodau i roi gwybod am newid i'w buddiannau cofrestredig o fewn yr amser a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog. Ym mhob achos, wrth i'r Aelodau dderbyn eu camgymeriad a'i gywiro, argymhellais i'r Pwyllgor na ddylwn barhau â'm hymchwiliad. Derbyniwyd yr holl argymhellion hyn.

**11.** Deuthum â'm hymchwiliad i dri o'r cwynion derbyniadwy i ben, yn unol â pharagraff 5.1(b) o'r Weithdrefn, oherwydd fy mod eisoes wedi cyflwyno fy adroddiad am ymddygiad union yr un fath i'r Pwyllgor ac ni fyddai unrhyw bwrpas defnyddiol wedi dod yn sgil parhau â'm hymchwiliad. Gorffennais fy ymchwiliad i gŵyn arall, yn unol â pharagraff 5.1(c) o'r Weithdrefn, pan gefais fy hysbysu gan yr achwynydd nad oedd am barhau â'i chwyn.

**12.** Dechreuais ymchwiliad ffurfiol llawn i'r saith gŵyn dderbyniadwy arall. Cyflwynwyd fy adroddiadau ar bedwar o'r ymchwiliadau hyn i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ym mhob un o'r adroddiadau hyn, rhoddais fy marn nad oedd unrhyw ddarpariaeth berthnasol wedi'i thorri. Cytunodd y Pwyllgor â'r farn ym mhob un o'r rhain.[12] [13] [14] [15]

---

[11] Mae paragraff 7(iii) o'r Cod yn darparu nad yw'n gymwys mewn perthynas â safonau gwasanaeth a chanlyniadau a geir gan Aelod.
[12] Wythfed Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[13] Degfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[14] Unfed adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9
[15] Deuddegfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

## Cwynion a ddygwyd ymlaen i 2024-25

**13.** Ar ddiwedd y flwyddyn, nid oeddwn wedi penderfynu ar dderbyniadwyedd dwy gŵyn a ddaeth i law yn ddiweddar.[16] Roedd fy ymchwiliad i dair cwyn dderbyniadwy a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn yn parhau.[17]

## Ystyriaeth

**14.** Yn 190, dyma nifer uchaf y cwynion a ddaeth i law ers 2020-21 ac mae'n gynnydd o fwy na 167 y cant ers y llynedd. Gellir esbonio'r cynnydd hwnnw'n rhannol gan y ffaith bod dau Aelod rhyngddynt yn destun 58 o gwynion ac un aelod o'r cyhoedd wedi gwneud 26 o gwynion, heb yr un ohonynt yn erbyn yr un o'r Aelodau hyn. Serch hynny, mae'n amlwg bod y cynnydd yn sylweddol, hyd yn oed heb y cyfraniadau unigol hyn.

**15.** Nid wyf yn credu bod y cynnydd hwn yn nifer y cwynion a ddaeth i law yn dangos unrhyw ostyngiad yn safon ymddygiad gyffredinol uchel Aelodau o'r Senedd. Y ganran o gwynion a oedd yn annerbyniadwy oedd yr uchaf yn ystod y pedair blynedd diwethaf. A gan roi o'r neilltu y rhai am hysbysiad hwyr o newidiadau i fuddiannau cofrestredig, dim ond saith o'r 190 o gwynion oedd angen ymchwiliad llawn ac erbyn diwedd y flwyddyn, ni chanfuwyd bod yr un ohonynt wedi torri rheolau. Ar un wedd, mae'r cynnydd yn nifer y cwynion i'w groesawu fel un sy'n dangos mwy o ddiddordeb cyhoeddus mewn craffu manylach ar waith ac ymddygiad Aelodau o'r Senedd. Bod craffu cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn ein proses ddemocrataidd.

**16.** Fel yn y gorffennol, arweiniodd y sesiynau ymwybyddiaeth a roddais i bob grŵp plaid at nifer o Aelodau yn diweddaru eu cofnodion yn y Gofrestr y tu allan i'r cyfnod o bedair wythnos a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog. Cafodd pob un o'r 17 o achosion o'r fath, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, eu cyfeirio ataf fi i ymchwilio iddynt. Ym mhob achos, cytunodd y Pwyllgor ar fy argymhelliad, gan mai mân wallau oedd y gwallau a'u bod wedi'u cywiro, na ddylwn barhau â'm hymchwiliad iddynt.

**17.** Er gwaethaf y sesiynau ymwybyddiaeth a'r rhybuddion a roddwyd gan y Pwyllgor, sylwadau a wnaed gan Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol, oedd y pwnc mwyaf cyffredin o bell ffordd ar gyfer cwynion. Er bod bron y cyfan o'r rhain

---

[16] Ar 13 Mai 2024 penderfynais fod y ddwy yn dderbyniadwy a dechreuais fy ymchwiliad iddynt

[17] Cyflwynwyd fy adroddiad ar un ohonynt i'r Pwyllgor ar 20 Mai 2024.

yn annerbyniadwy yn y pen draw, roeddent yn dal i gymryd llawer o fy amser i ac amser yr Aelodau o dan sylw. Byddwn unwaith eto yn annog Aelodau i gymryd gofal mawr wrth bostio, rhannu neu hoffi unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol a cheisio osgoi gwneud unrhyw beth a allai arwain at gŵyn yn eu herbyn.

**18.** Yn ystod y flwyddyn dim ond un gŵyn a gafwyd gan Aelod yn erbyn Aelod arall. Roedd y gŵyn honno'n dderbyniadwy ac roedd yn destun ymchwiliad ar ddiwedd y flwyddyn.[18]

**19.** Cafodd cyfran uchel o'm hamser ei dreulio mewn dau faes: y gŵyn yn erbyn Rhys ab Owen AS a chwynion am y newid i'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig.

## Cwyn yn erbyn Rhys ab Owen AS

**20.** Er i'r gŵyn hon ddod i law ym mis Awst 2022 roedd fy ymchwiliad iddi yn parhau ar ddechrau'r flwyddyn adrodd.

**21.** Y gŵyn oedd bod Mr ab Owen yn hwyr ar 30 Mehefin 2021 wedi meddwi'n drwm yn Wetherspoons Mount Stewart ym Mae Caerdydd, a'i fod wedi galw'r achwynydd benywaidd ddwywaith yn 'bitch', ei fod wedi rhoi ei fraich o'i chwmpas a thynnu ei chorff yn agos ato a'i fod yng nghefn tacsi wedi rhoi ei law ar ei chlun, yn agos at ei gafl a'i gwasgu'n galed. Roedd Mr ab Owen yn derbyn ei fod wedi meddwi'n drwm ond fe wadodd yr honiadau eraill.

**22.** Roedd yr ymchwiliad yn golygu nifer sylweddol o gyfweliadau â thystion, llawer ohonynt ar lw, a chael ac ystyried dogfennau perthnasol. Cymerwyd llawer o amser yn ystyried ac ymateb i nifer o bwyntiau a godwyd gan Mr ab Owen, a gynrychiolwyd gan uwch gwnsler drwyddi draw, am degwch y broses a oedd yn cael ei dilyn ac a oedd ei Hawliau Dynol wedi'u torri. O ganlyniad, nid oedd yn bosibl cyflwyno fy adroddiad i'r Pwyllgor tan fis Mai 2023.

**23.** Gerbron y Pwyllgor, adnewyddodd Mr ab Owen ei sylwadau am degwch y broses a'i diffyg cydymffurfio honedig â safonau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cododd hefyd nifer o faterion ffeithiol yr oedd angen ymchwilio

[18] Cyflwynwyd yr adroddiad ar fy ymchwiliad i'r Pwyllgor ar 20 Mai 2024.

ymhellach i rai ohonynt.  Ni chyhoeddwyd Nawfed Adroddiad y Pwyllgor tan fis Mawrth 2024.[19]

**24.** Yn yr Adroddiad hwnnw, cytunodd y Pwyllgor ar fy marn fod Mr ab Owen wedi torri Rheol 3 y Cod Ymddygiad (dyletswydd i beidio â dwyn anfri ar y Senedd), Rheol 4 (dyletswydd i beidio ag ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu na bwlio o unrhyw fath) a Rheol 6 (dyletswydd i beidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n sarhaus o unrhyw fath).  Derbyniodd y Senedd argymhelliad y Pwyllgor y dylid atal Mr ab Owen am gyfnod o 42 diwrnod eistedd.

**25.** Gwnaeth y Pwyllgor hefyd nifer o argymhellion ynghylch cynnal ymchwiliadau, ac y mae pob un ohonynt wedi'u gweithredu.

## Cwynion am y terfyn cyflymder diofyn o 20mya

**26.** Daeth y terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig i rym ar 17 Medi 2023.  Daeth 30 o gwynion i law am sylwadau, bron bob un ohonynt ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ymwneud â hynny  Roedd pymtheg o'r cwynion hyn yn ymwneud â sylwadau a wnaed gan y rhai oedd yn gwrthwynebu'r terfyn newydd: roedd yr hanner arall yn ymwneud â sylwadau a wnaed gan y rhai oedd yn ei gefnogi.  O'r 30 o gwynion, roedd 26 yn annerbyniadwy, roedd dwy yn dderbyniadwy ac nid oedd derbyniadwyedd y ddwy arall wedi cael eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn. Yn dilyn fy ymchwiliad i un o'r ddwy gŵyn dderbyniadwy a oedd bron yn union yr un fath, cytunodd y Pwyllgor â'm barn nad oedd unrhyw ddarpariaeth berthnasol wedi cael ei thorri.[20]  Yna daeth fy ymchwiliad i'r gŵyn dderbyniadwy arall i ben yn unol â pharagraff 5.1(b) o'r Weithdrefn.

[19] Nawfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9.
[20] Wythfed Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

# 4. Gwaith arall

**27.** Eto, rhoddais sesiynau ymwybyddiaeth i Aelodau o bob plaid. Am y tro cyntaf, rhoddais sesiwn debyg i staff cymorth yr Aelodau a staff y pleidiau. Cafwyd nifer dda yn y sesiynau hyn ac roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol.

**28.** Nodais feysydd pellach y gellid gwella ar y Mesur a’r Weithdrefn, ac adroddais arnynt. Mae'r Mesur ar waith bellach, heb unrhyw welliant ers 15 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae nifer o ddiffygion wedi'u canfod. Ymhlith y pwysicaf o'r rhain mae absenoldeb darpariaeth sy'n rhoi'r grym i'r Comisiynydd gychwyn ymchwiliad heb fod angen cwyn. Mae pŵer i'r Comisiynydd gychwyn ymchwiliad yn gyffredin mewn awdurdodaethau eraill. Mae ei absenoldeb yng Nghymru yn gwneud Rheol 18 (dyletswydd i gydymffurfio â'r Weithdrefn); Rheol 20 (dyletswydd i beidio lobïo'r Comisiynydd Safonau) a Rheol 23 (dyletswydd i beidio â gwneud cwynion gwamal, blinderus neu sy’n amlwg yn ddi-sail) o'r Cod yn gyfyngedig iawn o ran gwerth, gan ei bod yn anodd gweld sut y gallai unrhyw un heblaw'r Comisiynydd wneud cwyn amdanynt. Er fy mod yn gwerthfawrogi'r pwysau ar amser y Senedd, nid wyf yn credu y dylai’r broses o ddiwygio'r Mesur gael ei ohirio.

**29.** Cyfarfûm ag Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig ac Arweinydd Dros Dro Plaid Cymru i drafod digonolrwydd gweithdrefnau eu plaid ar gyfer ymdrin â chwynion a wneir gan staff am ymddygiad yr Aelodau. Er na wnaeth Arweinydd Llafur Cymru fanteisio ar fy nghynnig o gyfarfod o'r fath, rhoddodd wybodaeth gynhwysfawr i mi am y camau a gymerwyd ac a fwriedir i sicrhau bod y broses gwynion fewnol yn addas i'r diben.

**30.** Adnewyddais fy nghysylltiadau â Chomisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon a chyfarfûm â Daniel Greenberg yn dilyn ei benodiad yn Gomisiynydd Safonau Seneddol. Euthum i gyfarfod y Rhwydwaith Safonau unwaith eto lle'r oeddwn yn gallu trafod materion o ddiddordeb ar y cyd gyda Chomisiynwyr a'u staff o bob rhan o Ynysoedd Prydain.

**31.** Cymerais ran yn y digwyddiad Cam-drin mewn Gwleidyddiaeth a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

**32.** Unwaith eto ymatebodd fy staff a minnau i nifer o geisiadau am gyngor am y broses gwyno a materion eraill nad oedd gan rai ohonynt unrhyw beth i'w wneud â fy swyddogaethau fel Comisiynydd. Ym mhob achos ymdriniwyd â hwy â chydymdeimlad a, phan oedd yn briodol, cyfeiriwyd y person at y sefydliad priodol.

# 5. Gwariant

**33.** O dan adran 3 a pharagraff 5 o'r Atodlen i'r Mesur, rhaid i Gomisiwn y Senedd dalu'r Comisiynydd y cyflog a'r lwfansau a gytunir yn nhelerau ac amodau'r penodiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd dalu'r holl dreuliau rhesymol yr eir iddynt yn gyfreithlon gan y Comisiynydd wrth gyflogi staff, prynu nwyddau neu wasanaethau, a thalu lwfansau neu dreuliau i dystion.

**34.** Mae'r gwariant gan swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 i'w weld yn Nhabl 4.

*Tabl 4 – Gwariant swyddfa'r Comisiynydd*

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd (Nodyn 1)** | 17,446 | 0 | 30,538 | 34,692 | 48,847 |
| **Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd** | 376 | 0 | 1,014 | 4,264 | 5,199 |
| **Costau eraill y Comisiynydd** | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau cyflogaeth y Comisiynydd Dros Dro (Nodyn 1)** | 10,188 | 42,517 | 0 | 0 | 0 |
| **Teithio a chynhaliaeth y Comisiynydd Dros Dro** | 2,655 | 105 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau eraill y Comisiynydd Dros Dro** | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant y Comisiynydd a'r Comisiynydd Dros Dro** | 30,665 | 42,622 | 31,552 | 38,955 | 54,045 |
| **Cyflogau staff + Cyfraniadau YC cyflogwr + cyfraniad pensiwn cyflogwr (Nodyn 2)** | 123,630 | 92,834 | 70,874 | 71,115 | 74,448 |
| **Teithio a Chynhaliaeth staff** | 511 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Costau eraill staff** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau staff** | 124,141 | 92,834 | 70,874 | 71,115 | 74,448 |
| **Gwariant arall yr aed iddo[21]** | 1,528 | 25,259 | 4,957 | 9,524 | 5,498 |
| **CYFANSWM GWARIANT SWYDDFA'R COMISIYNYDD** | 156,334 | 160,715 | 107,383 | 119,595 | 133,992 |

Nodyn 1 - Tâl y Comisiynydd + cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr

Nodyn 2 - Cyflog staff = cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr + cyfraniad pensiwn y cyflogwr

**35.** Cafwyd cynnydd yn y gost o redeg swyddfa'r Comisiynydd oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a gafwyd, y cynnydd yn nifer yr ymchwiliadau llawn a gynhaliwyd a'r gwaith pellach mewn cysylltiad â'm hymchwiliad i'r gŵyn yn erbyn Rhys ab Owen AS. Er gwaethaf y cynnydd hwnnw, mae cyfanswm y gost yn parhau i fod dros 16 y cant yn llai na'r gwariant yn 2020-21.

[21] Roedd hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer costau gwasanaethau cyfreithiol, trawsgrifio, ymdrin â'r cyfryngau a threuliau tystion.

# 6. Y flwyddyn i ddod

**36.** Yn ogystal ag ymdrin â chwynion, byddaf, yn ystod 2024-25, yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pwyllgor a'i staff i wneud y broses gwynion yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy nodi unrhyw beth yn y Mesur, y Cod a'r Weithdrefn y gellid ei wella.

**37.** Byddaf yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth pellach i'r Aelodau a'u staff.


**38.** Bydd y gwaith i ddiweddaru ac ail-lansio gwefan y Comisiynydd yn cael ei gwblhau.

**39.** Byddaf yn parhau i ystyried gwersi sydd i'w dysgu o ymchwilio'r gŵyn yn erbyn Rhys ab Owen AS.

**40.** Byddaf yn parhau i gysylltu â'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith tebyg mewn awdurdodaethau eraill gyda'r bwriad o nodi a chyflwyno arfer gorau.

# 7. Diolchiadau

**41.** Unwaith eto, cefais fy nghefnogi hyd eithaf ei allu gan Jonathan Thomas, fy Rheolwr Ymchwiliadau a Chwynion. Cefais gymorth mawr yn fy ngwaith hefyd gan ddull proffesiynol a chymwynasgar Meriel Singleton, Clerc y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt ac i'r nifer fawr o staff Comisiwn y Senedd a'm helpodd i gyflawni fy nyletswyddau.



**Douglas Bain CBE TD**
Comisiynydd Safonau'r Senedd

15 Gorffennaf 2024

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

CYNNAL ENW DA

GWARCHOD SAFONAU

MYND I'R AFAEL Â PHRYDERON